**ADRODDIAD GAN Y PENNAETH CYNLLUNIO A DIOGELU'R CYHOEDD**

# DIGONOLRWYDD YMGYNGHORI

# FFERM WYNT COEDWIG CLOCAENOG

## 1 DIBEN YR ADRODDIAD

1.1 Mae'r adroddiad yn codi am fod RWE npower Renewables (yr Ymgeisydd) wedi nodi ei fod yn cwblhau'r cais sy'n gofyn am ganiatâd cynllunio i Godi 32 o Dyrbinau Gwynt a gwaith cysylltiedig (Prosiect Seilwaith Cenedlaethol ei Arwyddocâd (NSIP)) ac mae'n debygol o fod yn cyflwyno'r cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu (GCD) i'r Arolygiaeth Gynllunio (PINS) ar ddiwedd mis Mawrth.

1.2 Ar ôl i hyn ddigwydd, bydd yr Arolygiaeth Gynllunio'n dechrau'r broses ymgeisio ffurfiol ar gyfer Prosiect Seilwaith Cenedlaethol ei Arwyddocâd.

1.3 Mae'r broses hon yn cynnwys nifer o elfennau, a'r cyntaf yw y bydd rhaid i'r Arolygiaeth Gynllunio asesu digonolrwydd yr ymgynghori gan yr ymgeiswyr cyn cyflwyno'r cais ac asesu a yw'n bodloni'r gofynion a nodir yn Neddf Cynllunio 2008.

1.4 Yr amserlen i'r Arolygiaeth Gynllunio gwblhau ei ymateb am ddigonolrwydd yr ymgynghori yw 28 diwrnod yn unig ar ôl cyflwyno'r ddogfen.

1.5 Yn rhan o'r broses, bydd yr Arolygiaeth Gynllunio'n ysgrifennu at y Cyngor yn ei wahodd i wneud sylwadau cyn pen 14 diwrnod.

1.6 Ni fyddai hyn yn gadael digon o amser i swyddogion gyflwyno adroddiad i'r pwyllgor a pharatowyd yr adroddiad hwn i sicrhau bod yr aelodau'n cael y cyfle i leisio eu barn.

## 2 CEFNDIR

2.1 Cafodd RWE npower Renewables (NRL) yr hawliau i ddatblygu fferm wynt ar dir sy'n eiddo i Lywodraeth Cynulliad Cymru ac a reolir gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru yng Nghlocaenog yn 2009 a chofrestrodd y cynnig wedyn fel Prosiect Seilwaith Cenedlaethol ei Arwyddocâd gyda'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith (IPC) ar y pryd.

2.2 Y datblygiad a gynigir yw fferm wynt wedi'i gosod â'r gallu i greu hyd at 96 megawat (MW) yn seiliedig ar 32 o dyrbinau gwynt, a phob un yn gallu cynhyrchu 2-3 MW. Mae'r ffaith ei fod yn gallu cynhyrchu mwy na 50 MW i gyd yn golygu ei fod yn ddatblygiad Prosiect Seilwaith Cenedlaethol ei Arwyddocâd, ac mae gofyn cyflwyno cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu i'r Arolygiaeth Gynllunio dan Ddeddf Cynllunio 2008. Roedd i fod i gael ei gyflwyno'n wreiddiol i'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith ond roedd y

sefydliad hwn ar gau erbyn y llywodraeth bresennol ac wedi'i ymgorffori yn yr Arolygiaeth Gynllunio.

2.3 Mae Deddf Cynllunio 2008 yn gofyn bod yr ymgeisydd yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus â'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn ardal y fferm wynt a gynigir. Roedd angen cynnal yr ymgynghoriad yn unol â Datganiad o Ymgynghori â'r Gymuned (SOCC) y cytunwyd arno.

2.4 Ymgynghorwyd â'r Cyngor am y Datganiad Drafft tua dechrau 2010 a chyflwynwyd adroddiad cynhwysfawr i'r Pwyllgor a throsglwyddwyd ei sylwadau i'r ymgeiswyr.

2.5 Wedyn, cyhoeddodd yr ymgeisydd y Datganiad o Ymgynghori â'r Gymuned a fabwysiadodd mewn perthynas â'r fferm wynt hon.

2.6 Roedd dulliau'r ymgynghoriad a gyhoeddwyd yn cynnwys:

-Cylchlythyrau.

-Gwefan.

-Ymgysylltu â'r cyfryngau.

-Arddangosfeydd.

-Gwneud gwybodaeth dechnegol ar gael mewn amrywiaeth o leoedd drwy gydol y broses

-Cyfarfodydd grŵp Cyswllt Cymunedol.

- Cyfarfodydd Wyneb yn Wyneb.

2.7 Yn unol â'r Datganiad o Ymgynghori â'r Gymuned, ymgynghorodd yr ymgeisydd ym mis Awst 2011 â'r Cyngor a'r ymgynghori statudol eraill ar y Datganiad Amgylcheddol Drafft dan Adran 42 o Ddeddf Cynllunio 2008. Ar ôl adroddiad llawn i Bwyllgorau Cynllunio Cynghorau Sir Ddinbych a Chonwy gwnaethpwyd ymateb ar y cyd ar ddiwedd mis Medi 2011.

2.8 Yn y cyfamser, bu'r ymgeisydd yn cydymffurfio â'i ofynion ymgynghori ac yn ailasesu'r Datganiad Amgylcheddol a manylion eraill ei gyflwyniad Gorchymyn Caniatâd Datblygu ar ôl y sylwadau a gafwyd.

2.9 I gefnogi'r cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu, bydd angen i'r ymgeisydd gyflwyno adroddiad datganiad o ymgynghoriad yn nodi'r camau a gymerwyd ganddo i sicrhau bod yr Arolygiaeth Gynllunio'n fodlon ar y Digonolrwydd Ymgynghori. Yn yr adroddiad hwn, bydd angen dangos pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd, dangos bod yr ymatebion a gafwyd wedi'u cofnodi'n foddhaol ac egluro'r camau a gymerwyd gan yr ymgeisydd ynghylch yr ymatebion.

2.10 Ar wahân i'r ymgynghoriadau sy'n cael eu cynnal gan yr ymgeisydd, mae'r Cyngor hefyd wedi mabwysiadu ei ddogfen Strategaeth Gymunedol ei hun ar gyfer Prosiectau Seilwaith Cenedlaethol eu Harwyddocâd ac ym mharagraff 6.2d mae'n nodi y bydd y Cyngor, cyn rhoi sylwadau am ansawdd ymgynghoriad cymunedol y datblygwr, yn ysgrifennu at y Cynghorau Tref a Chymuned berthnasol i gasglu gwybod am eu profiad a'u barn am Ymgynghoriad cymunedol y datblygwr. Gwnaethpwyd hyn ym mis Mehefin 2012 a chafwyd 7 ymateb a fydd yn cael eu hanfon ymlaen i'r Arolygiaeth Gynllunio ar ôl cael yr ymgynghoriad ffurfiol.

2.11 Er gwybodaeth yr Aelodau, mae'r ymgeisydd wedi llunio hanes cryno byr o'r datblygiad, a'r ymgynghoriad a gynhaliwyd hyd yma, sydd fel a ganlyn:-

- Gwaith cwmpasu a gynhaliwyd gyda'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC) ym mis Gorffennaf 2008

- Cylchredeg y cylchlythyr dwyieithog cyntaf i'r cyhoedd ym mis Tachwedd 2008

- Cynnal ymgynghoriad dan Adran 36 ym mis Hydref 2009, gan gynnwys cylchlythyr (ail gylchlythyr dwyieithog – Medi 09) ac arddangosfeydd. Roedd paneli arddangos dwyieithog a staff sy'n siarad Cymraeg yn yr arddangosfeydd.

- Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y grŵp cyswllt cymunedol (GCC) rhwng REW a chynrychiolwyr y grwpiau buddiant a'r grwpiau cymunedol lleol ym mis Ebrill 2009 (yr $2^{il}$ ar 9-Gorff-09, y $3^{ydd}$ ar 03-Tach-09, y $4^{ydd}$ ar 06-Gorff-10- Allgymorth IPC, y $5^{ed}$ ar 17-Awst-11) a sefydlwyd gwefan benodol GCC. Cyfarfu'r GCC ar 17 Awst 2011 yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol ac, yn y cyfarfod hwn, penderfynodd nad oedd ail gyfarfod yn ystod y cyfnod ymgynghori'n ofynnol. Cynigiwyd GCC pellach ar ôl y cais. Darparwyd cyfieithiad Cymraeg yng nghyfarfodydd y GCC.

- Ym mis Mawrth 2010 daeth Deddf Cynllunio 2008 i rym i ffermydd gwynt > 50MW

- Ymgynghorwyd ar Ddatganiad o Ymgynghori Cymunedol (SoCC) â Chyngor Sir Ddinbych a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ym mis Ionawr/Chwefror-10.

- Cyhoeddwyd Datganiad o Ymgynghori â'r Gymuned (SoCC) yn y Denbighshire Free Press ym mis Rhagfyr 2010.

- Cyhoeddwyd hysbysiad Adran 48 (yn Gymraeg ac yn Saesneg) yn y Denbighshire Free Press, The Independent a London Gazette cyn dechrau ymgynghoriad ym mis Awst 2011, gan gynnwys manylion yr ymgynghoriad, dyddiadau a lleoliadau'r arddangosfa gyhoeddus, ble roedd gwybodaeth bellach ar gael a sut i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad. Hysbysebwyd yr ymgynghoriad hefyd yn y Denbigh Visitor a'r Denbighshire Free Press, ac anfonwyd datganiadau dwyieithog i'r wasg i 30 o sefydliadau cyfryngau lleol.

- 56 diwrnod o ymgynghoriad Adran 42 (ymgyngoreion a bennwyd – *prescribed consultees*) ac Adran 47 (cymuned leol) o 04-Awst-11 i 28-Medi-11, gan gynnwys 28 diwrnod statudol y tu allan i gyfnod gwyliau.

- Gwnaethpwyd yr wybodaeth amgylcheddol ragarweiniol, ar ffurf crynodeb heb fod yn dechnegol (yn Gymraeg ac yn Saesneg) a'r Datganiad Amgylcheddol drafft llawn, ar gael yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol mewn amryw leoedd (Llyfrgell Rhuthun, Llyfrgell Dinbych, Swyddfa Gynllunio Conwy, Swyddfa Gynllunio Dinbych, Siop-y-Fro Clawddnewydd, Swyddfa Bost Llansannan, Swyddfa Bost Cerrigydrudion) ac ar wefan RRWE NRL (www.npoer-renewables.com/clocaenogforest <http://www.npoer-renewables.com/clocaenogforest>), gan nodi sut gellid gwneud sylwadau drwy'r post, ffôn ac e-bost. Roedd y deunyddiau ymgynghori'n nodi buddion ac effeithiau andwyol y prosiect, gan gynnwys effeithiau ar archaeoleg, ecoleg a thirwedd.

- Anfonwyd cylchlythyr (Trydydd cylchlythyr dwyieithog - Awst 2011 - 13,000 o gopïau), a oedd yn disgrifio'r ymgynghoriad, ble roedd deunyddiau ar gael, dyddiadau arddangosfeydd a sut i ymateb, i gartrefi pobl o fewn 5km o derfyn Coedwig Clocaenog, ac i gartrefi a busnesau o fewn y pum ward cyngor sy'n gorgyffwrdd â Choedwig Clocaenog neu sy'n ffinio â hi, yn ogystal â Dinbych (prif dref farchnad) a Chorwen sydd ar y Llwybr Mynediad Strategol i Ardal Chwilio Strategol A.  Y wardiau Cyngor a gafodd eu cynnwys yn ardal yr ymgynghoriad hwn yw: Llanrhaeadr-yng-nghinmeirch (Sir Ddinbych), Efenechtyd (Sir Ddinbych), Uwchaled (Conwy), Llansannan (Conwy), Llangernyw (Conwy).

- Cynhaliwyd arddangosfeydd gan gynnwys cynlluniau, diagramau a gwybodaeth, dros 6 diwrnod (18/20-Awst-11 a 08/10-Medi-11) yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol mewn amryw leoedd yn yr ardal, gan gynnwys Cerrigydrudion, Clawddnewydd, Llanfwrog, Llansannan a Dinbych lle bu'r ymhelwyr yn gallu gweld a thrafod y cynigion wyneb yn wyneb â staff NRL. Roedd paneli arddangos dwyieithog a staff yn siarad Cymraeg yn yr arddangosfeydd.

- Ers yr ymgynghoriad, bu RWE yn mynd i'r afael â'r pwyntiau a godwyd ynddo, gan gynnwys mireinio ac arolygon pellach, ac yn paratoi'r cais. Cyn y cais, bydd RWE yn diweddaru gwefan y prosiect, yn cylchredeg nodyn diweddaru i aelodau'r GCC ac yn ymateb i'r holl ymgyngoreion Adran 42 ac Adran 47 a gyflwynodd ymatebion i'r ymgynghoriad.

## 3 ASESU YMGYNGHORIAD YR YMGEISYDD

3.1 Mae'n amlwg bod yr ymgeisydd wedi gwneud yr hyn a ddisgrifir yn y Datganiad o Ymgynghori â'r Gymuned a gyhoeddwyd a'i fod wedi cynnal yr ymgynghoriad priodol o ran yr ymgynghoriad Adran 42, 47, a 48 ar yr ymgynghoriad Datganiad Amgylcheddol drafft ar y Datganiad Amgylcheddol Drafft.

3.2 Fodd bynnag, bu hon yn broses hir dros dair blynedd a bu cyfnodau maith pan fu'r ymgeisydd yn dadansoddi canlyniadau ymgynghoriadau a gafwyd, a allai roi'r argraff bod y gymuned wedi'i anghofio am na chafwyd llawer iawn o adborth ac oherwydd prin iawn yw'r wybodaeth sydd gan y Cyhoedd am y ffordd y mae eu sylwadau efallai wedi dylanwadu ar natur, graddfa neu gyfeiriad y datblygiad, neu eu newid. Gallai hyn fod yn amlycach ar ôl i'r cynllun gael ei gyflwyno ac ar ôl cyhoeddi datganiad yr ymgeisydd ar ymateb y gymuned i'r ymgynghoriad.

3.3 O ymatebion y Cyngor Cymunedol, mae'n amlwg y pryderir bod y broses ymgynghori wedi'i defnyddio yn ymarfer i hyrwyddo'r datblygiad ac mai bach iawn fu gallu'r Cyhoedd i ddylanwadu ar newidiadau i'r cynnig. Hwyrach y bydd yr Aelodau'n cydymdeimlo i raddau â'r sylw hwn ac yn dymuno ei gefnogi.

3.4 Er ei bod fel petai'r ymgeisydd wedi cydymffurfio â gofynion y Datganiad o Ymgynghori â'r Gymuned a gyhoeddwyd fel y cyfeiriwyd atynt uchod, gellid dadlau ei fod wedi gwneud yr hanfodion pur yn unig i fodloni'r gofynion ac nad yw wedi gwneud unrhyw beth ychwanegol i ymgysylltu'n llawn â'r cymunedau yn ardal Clocaenog. Bydd barn yr Aelodau am y mater hwn yn ddefnyddiol wrth roi sylwadau i'r Arolygiaeth Gynllunio am ddigonolrwydd yr Ymgynghoriad.

3.5 Un o'r prif broblemau gyda'r broses ymgynghori yw nad yw'r ymgeisydd yn cyflwyno 'dalen lân', oherwydd erbyn i ymgynghoriad gweithgar ddigwydd, mae natur a graddfa'r datblygiad eisoes wedi'u sefydlu. Fel y cyfryw, hwyrach y bydd y cyhoedd yn teimlo nad oes ganddo unrhyw gyfraniad ystyrlon at ffurf y cynllun arfaethedig, ac yn teimlo'n rhwystredig at broses sydd fel petai'n ymarfer cyfreithloni pur ar ran yr ymgeisydd i gydymffurfio â statud a osodwyd.

## 4 CASGLIAD

4.1 Mae'r amser ymateb ar y cais Digonolrwydd Ymgynghoriad gan yr Arolygiaeth Gynllunio ar ôl cyflwyno'r cais Prosiect Seilwaith Cenedlaethol ei Arwyddocâd yn gyfyngol iawn – 14 diwrnod – ac nid oes digon o amser i'r Swyddogion baratoi adroddiad manwl i'r Pwyllgor.

4.2 Cyflwynir yr adroddiad felly i'r Pwyllgor ar yr adeg hon gyda'r cais wedi'i drefnu i'w gyflwyno ar ddiwedd mis Mawrth 2013. Croesawir barn yr Aelodau felly am eu profiadau o'r broses hyd yma, a bydd hyn yn helpu Swyddogion i ffurfio ymateb i'r Arolygiaeth Gynllunio.

4.3 Mae'n amlwg fod dau Gyngor Cymunedol yn anfodlon ar y broses ymgynghori, a bydd y sylwadau a gafwyd hyd yma'n cael eu cynnwys yn ymateb y Cyngor.

## 5 ARGYMHELLIAD

Bod y Pwyllgor yn awdurdodi'r Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd i roi sylwadau am y cais Digonolrwydd Ymgynghori gan yr Arolygiaeth Gynllunio ar ôl i'r cais Prosiect Seilwaith Cenedlaethol ei Arwyddocâd am godi tyrbinau gwynt yng Nghlocaenog gael ei gyflwyno'n ffurfiol.